Diweddariad ar y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg

ATODIAD B – Camau Gweithredu Safon Uwch Cymraeg 2019-20

Ym mis Ebrill 2019 cytunodd y Gweindog Addysg i ddyrannu £145,000 yn 2019-20 i gefnogi'r camau isod:

£50,000 i'w ddyrannu drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i adrannau Cymraeg prifysgolion i ddatblygu cynlluniau peilot cydweithredol mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- rhaglen beilot ar gyfer mentora dysgwyr 14-18 oed mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg i roi cyfle i fyfyrwyr israddedig Cymraeg gefnogi'r dysgwyr wrth iddynt astudio'r iaith;
- datblygu modiwlau addysg uwch sy'n rhoi cyflwyniad cyffredinol i faes addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg yng Nghymru i israddedigion;
- cefnogi athrawon y Gymraeg drwy ymgymryd ag ymchwil neu hyfforddiant ar wahanol agweddau ar y cwricwlwm e.e. trafod a dadansoddi barddoniaeth;
- hyrwyddo'r cwricwlwm addysg uwch mewn ysgolion a'r llwybrau y gellir eu defnyddio i gael mynediad i gwrs gradd yn Gymraeg.

£50,000 i'w ddyrannu drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi ysgolion i sicrhau hyfywedd y Gymraeg fel pwnc Safon Uwch e.e. trwy gynlluniau amgen i gydleoli darpariaeth, neu hwyluso gallu ysgolion i gynnal dosbarthiadau bach.

£20,000 i ddatblygu a threialu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr 11-14 oed mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i elwa ar brofiadau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm a'u hysbrydoli i barhau i astudio'r Gymraeg. Bydd hyn yn cysylltu'n agos â'r gwaith ar y Siarter Iaith.

£25,000 i werthuso'r camau gweithredu wrth i ni symud ymlaen ac i ymgymryd â gweithgareddau cyfathrebu i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc.